Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Garndolbenmaen
# Garndolbenmaen
# Gwynedd
# LL51 9SZ

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Garndolbenmaen wedi ei lleoli mewn pentref o'r un enw, tua phum milltir o dref Porthmadog yng Ngwynedd. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae 58 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys saith o oed meithrin. Mae ganddi dri dosbarth oed cymysg yn y bore a dau yn y prynhawn.

Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae tua 60% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae 8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 22% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mehefin 2010. Ers yr arolygiad mae newid sylweddol wedi bod i'r staffio. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2011. Yn ogystal â'r pennaeth, sydd â gofal dosbarth am bedwar diwrnod yr wythnos, mae un athrawes amser llawn ac un athrawes rhan amser.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Garndolbenmaen yn 2015-2016 yw £4,236. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £12,116 a'r lleiafswm yw £2,981. Mae Ysgol Garndolbenmaen yn y 36ain safle o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- bod medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn a'u bod yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi
- bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- bod bron bob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith
- ei bod yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu i'w disgyblion
- bod iddi ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion ac wedi ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, rhieni a llywodraethwyr
- y staff yn gefnogol i'r pennaeth ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus am ei pherfformiad
- partneriaethau buddiol yn bodoli gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod athrawon yn darparu her gyson i'r disgyblion o allu uwch

A3 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson

A4 Creu mwy o gyfleoedd i staff yr ysgol i gyfnewid arfer dda gydag ysgolion tu hwnt i'r ardal leol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safon medrau sylfaenol rhan fwyaf disgyblion yn addas ar gyfer eu hoed ar fynediad i'r ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau a'u diddordebau gan ddefnyddio geirfa eang sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Caiff hyn ei ddatblygu'n llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Mae bron pob disgybl yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg, gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig. Erbyn diwedd y cyfnod, mae bron pob disgybl yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan amrywio'u sgwrs yn gwbl naturiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r rhan fwyaf yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar goedd yn rhugl ac ystyrlon ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf drafod cynnwys testun yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau maent yn eu darllen. Mae llawer o'r disgyblion yn medru trafod yn syml eu hoff lyfrau a chymeriadau. Mae llawer yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ddarllen a thrafod ffeithiau i gymharu eu hardal leol â'r Amazon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod cynnwys y testun a chymeriadau mewn modd aeddfed. Maent yn cywain gwybodaeth berthnasol am bwnc arbennig o fwy nag un ffynhonnell yn hyderus, er enghraifft wrth ddysgu am Owain Glyndŵr.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n briodol ar gyfer eu hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o wahanol arddulliau ysgrifennu gan ddefnyddio strwythur brawddegau addas ac atalnodi sylfaenol yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr o ddiolch yn dilyn ymweliad i barc antur lleol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y ddwy iaith, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Maent yn defnyddio ystod addas o batrymau brawddeg yn gywir ac yn dangos gafael gynyddol o gywirdeb ieithyddol ac atalnodi. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu am fywyd yn Oes y Tywysogion ac wrth ysgrifennu adroddiad am ymweliad â bwyty yng Nghaerdydd. Ar draws yr ysgol, mae cyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion yn daclus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos medrau mathemategol priodol ar gyfer eu hoed. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o unedau mesur safonol ac o briodweddau siapiau dau a thri dimensiwn. Gall y rhan fwyaf ohonynt gasglu gwybodaeth syml i greu tabl a llunio graff bar syml, er enghraifft o ba fath o dai maent yn byw ynddynt a'u hoff ffrwythau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, ac erbyn diwedd y cyfnod maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o strategaethau i ddatrys problemau mathemategol. Maent yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn aeddfed. Maent yn defnyddio geirfa fathemategol yn gynyddol hyderus, er enghraifft wrth drafod priodweddau a chreu gwahanol siapiau. Maent yn trin a dadansoddi data yn hyderus gyda'r mwyafrif yn gallu cynhyrchu graffiau priodol yn annibynnol. Fodd bynnag, er bod medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn, nid ydynt yn eu trosglwyddo yn ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu. Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni cystal ag y gallent.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd diwethaf. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion wedi gosod yr ysgol gan yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion yn amrywio'n fawr ac nid oes unrhyw batrwm cyffredinol**.**

## Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd ac yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at fwyta ac yfed yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o elfennau sy'n debygol o effeithio ar eu hiechyd.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn. Maent yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill yn y gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Gall y rhan fwyaf weithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella eu dysgu eu hunain.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn grŵp brwdfrydig o ddisgyblion. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn weithgar yn yr ysgol ac mae llais y disgybl yn cael lle amlwg drwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth gynllunio gwelliannau i'r ardal allanol a phrynu adnoddau i'w defnyddio adeg amser chwarae. Mae'r aelodau yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi codi'n flynyddol ac wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae bron bob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau i'r holl ddisgyblion sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol wrth gynllunio'n fwriadus i fodloni anghenion bron pob disgybl. Maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol y disgyblion drwy'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth allanol yn sicrhau cyfleoedd buddiol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r amrywiaeth o ymweliadau addysgol a'r profiadau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae athrawon yn cynllunio amrediad buddiol o weithgareddau sy'n datblygu medrau llythrennedd, medrau meddwl a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu medrau rhif mewn gwersi mathemateg. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'r athrawon bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn iawn. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau fel yr eisteddfod leol er mwyn cyfoethogi eu profiadau.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau priodol sy'n hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cynaliadwyedd. Mae'r gwaith ar dyrbinau gwynt yn enghraifft dda o hybu ymwybyddiaeth disgyblion am gynhyrchu trydan mewn dull cynaliadwy. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft wrth gefnogi plentyn yn Affrica.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn y rhan fwyaf o wersi yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau'n

fedrus i sicrhau eu bod yn cyflwyno dilyniant o weithgareddau dysgu sy’n ennyn brwdfrydedd ac yn cynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae’r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at eu medrau llafaredd. Mae’r athrawon yn holi’r disgyblion yn effeithiol mewn dull sy’n eu hannog i roi atebion estynedig. Yn yr ychydig enghreifftiau, lle mae’r addysgu yn llai effeithiol, nid oes bob amser ddigon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd llawn, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae’r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu ac maent yn trafod ansawdd eu gwaith mewn modd sensitif ac adeiladol yn ystod y gwersi. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio’n rheolaidd. Lle mae’r marcio yn fwyaf effeithiol, er enghraifft yn y llyfrau iaith, mae sylwadau’r athrawon yn cynnig arweiniad clir iddynt ar sut i wella’r gwaith. Er hyn, nid yw arferion gorau asesu ar gyfer dysgu’n cael eu gweithredu’n ddigon cyson.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae’r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy’n cyfrannu at wella deilliannau. Mae’r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni’r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda drwy ystod o brofiadau diddorol. Mae ganddi bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r holl staff yn hyrwyddo byw'n iach yn effeithiol, gan gynnwys pwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd. Mae’r cyfnodau o gyd-addoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau cadarn i godi presenoldeb sydd wedi arwain at welliant.

Mae’r ysgol yn darparu cymorth unigol da i ddisgyblion ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol a gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, yn cynnwys y gwasanaethau lles addysg, meddygol ac argyfwng i gyfoethogi hynny. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r polisi a gweithdrefnau ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn glir, yn ddefnyddiol ac yn hybu ffocws ar bob disgybl fel unigolyn. Mae’r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth sy’n deillio o arsylwadau i adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cynllunio cefnogaeth fuddiol ar eu cyfer. Trwy asesiadau rheolaidd, mae’r athrawon y cadw golwg agos ar eu cynnydd a phennir targedau clir a chyraeddadwy yn y cynlluniau addysg unigol. Mae’r rhieni a’r disgyblion yn cael eu cynnwys yn briodol yn y broses o’u llunio a’u hadolygu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar ble caiff pawb eu parchu. Mae iddi ethos cartrefol a chroesawgar lle mae'r disgyblion a’r athrawon yn dangos parch a

gofal tuag at ei gilydd. Caiff pob disgybl ei drin yn gyfartal gyda mynediad addas i holl weithgareddau'r ysgol. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau priodol gan yr ysgol i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Mae'r adeiladau a'r safle yn darparu amgylchedd cartrefol, diogel ac ysgogol. Mae ardal allanol cysgodol y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys ystod eang o offer o ansawdd da ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at fodloni'r gofynion. Mae'r ardaloedd allanol yn annog y disgyblion o bob oed i gadw'n iach a heini gydag amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da. Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u cadw i safon uchel gyda safon dda o lanweithdra. Mae arddangosfeydd graenus a safonol o waith disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth a'r coridorau yn cefnogi dysgu'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion. Mae'n darparu arweiniad cadarn ac yn cydweithio'n llwyddiannus â disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni i greu ysgol effeithiol. Mae'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn fedrus ac mae ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli i gyflawni amcanion yr ysgol yn effeithiol.

Mae gan yr athrawon ddisgrifiadau swydd manwl sy'n cysylltu'n dda â'u cyfrifoldebau unigol. Mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac maent yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. O ganlyniad, mae pob aelod o'r staff yn deall eu cyfrifoldebau yn dda mewn perthynas â chynlluniau strategol yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol wedi eu sefydlu ac maent yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn cefnogi'r ysgol yn dda. Maent yn derbyn adroddiadau gan y pennaeth ac yn ymweld yn gyson i arsylwi ar wersi ac i graffu ar lyfrau. O ganlyniad, mae'r aelodau wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o sut mae'r ysgol yn perfformio. Maent yn defnyddio'r wybodaeth honno i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft, wrth weithredu Siarter iaith Gwynedd yn llwyddiannus a thrwy roi pwyslais ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, sy'n seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys dadansoddiad trwyadl o ddata, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r pennaeth yn cynnwys safbwynt, disgyblion a llywodraethwyr yn rheolaidd fel rhan o'r gweithdrefnau monitro. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i rieni gyfrannu i weithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau clir i'w cynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau. Mae'n cynnwys dangosyddion llwyddiant, cyfrifoldebau staff a chostau ynghyd ag amserlen ar gyfer gwerthuso'r targedau. Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft wrth wella safonau darllen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn sy'n cyfrannu'n dda at wella safonau a lles disgyblion yn effeithiol. Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae cymdeithas ffrindiau'r ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian yn rheolaidd. Mae'r arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i brynu adnoddau i gyfoethogi'r profiadau a gynigir i ddisgyblion, er enghraifft, i brynu caledwedd technoleg gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer yr ardal allanol.

Mae partneriaeth lwyddiannus iawn yn bodoli gyda'r ysgol feithrin sydd wedi ei lleoli yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen. Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd sy'n sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn y dalgylch i gyd-safoni a chymedroli asesiadau athrawon er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau defnyddiol gydag asiantaethau arbenigol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion bregus yn effeithiol.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli gyda'r gymuned leol sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw'r gwaith mae'r ysgol yn ei wneud mewn partneriaeth â chlwb pêl-droed lleol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ffitrwydd disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Mae tîm medrus a brwdfrydig o gynorthwywyr sy'n cynnig cynhaliaeth werthfawr i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar godi safon gwaith a chyrhaeddiad disgyblion. Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol sy'n cael eu rheoli'n effeithiol i sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion i bob agwedd o'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon. Mae'r trefniadau ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon yn briodol ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau cyd-gynllunio llwyddiannus ar gyfer trefniadaeth y dosbarthiadau.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw teilwng i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad athrawon yn cefnogi hyn yn briodol. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae'r bartneriaeth ag ysgolion y cylch lleol yn fuddiol. Mae'r partneriaethau'n cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol, er enghraifft, wrth wella dealltwriaeth yr athrawon o lefelau cyflawniad disgyblion a dilysu asesiadau diwedd cyfnodau allweddol. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i'r staff gyfnewid arfer dda gydag ysgolion tu hwnt i'r ardal leol er mwyn iddynt adeiladu cynhwysedd yr ysgol ar gyfer gwelliant pellach.

Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn rheoli gwariant yn ofalus. Maent yn sicrhau bod y gwariant wedi'i gysylltu'n dda ag amcanion, targedau a blaenoriaethau'r ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, yn bennaf i wella medrau darllen y disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612049 - Ysgol Gynradd Garndolbenmaen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 58 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.3 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 8 | 6 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 50.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 8 | 6 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 50.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 37.5 | 33.3 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 2 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 8 | 6 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 62.5 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 37.5 | 33.3 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 2 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 8 | 6 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 75.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 37.5 | 33.3 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612049 - Ysgol Gynradd Garndolbenmaen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 58 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.3 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 5 | 6 | * | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 83.3 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | * | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 83.3 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 83.3 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 83.3 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 83.3 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | 62.5 |
| Chwartel meincnod | * | * | * | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 25 | 25<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 25 | 25<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 25 | 25<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 24 | 24<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 25 | 25<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 25 | 25<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 25 | 25<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 25 | 25<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 25 | 25<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 25 | 25<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 25 | 25<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 25 | 22<br>88%<br>84% | 3<br>12%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 14 | 12 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 10 | 6 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 9 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 14 | 9 | 5 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 13 | 7 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 9 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 8 | 5 | 0 | 0 | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 8 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 9 | 6 | 3 | 0 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 9 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Michael Carruthers | Arolygydd Cymheiriaid |
| Richard Jones | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.